

Safonau'r Gymraeg

Adroddiad Blynyddol 2016/17



1. Cyflwyniad

Mae Safonau'r Gymraeg yn ei gwneud yn ofynnol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr lunio a chyhoeddi adroddiad blynyddol erbyn 30 Mehefin bob blwyddyn.

Mae'r adroddiad blynyddol hwn ar gyfer 2016/17 yn ymdrin â'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2017, ac mae'n amlinellu'r ffyrdd y mae'r cyngor wedi cydymffurfio â safonau darparu gwasanaethau, llunio polisi a gweithredu mis Mawrth 2016, a sut y mae wedi paratoi ar gyfer cydymffurfio â safonau perthnasol mis Medi 2016.

2. Cydymffurfiad: y modd y mae'r Cyngor cydymffurfio â safonau mis Mawrth 2016 ac wedi paratoi ar gyfer cydymffurfio â safonau mis Medi 2016

Cydymffurfiad cyffredinol

- Mae gan y cyngor swyddog arweiniol ar gyfer y Gymraeg a chydraddoldeb;
- Cynhaliwyd cyfres o sesiynau i godi ymwybyddiaeth ymhlith staff yn ystod haf 2016;
- Roedd Bwrdd Gweithredu Safonau'r Gymraeg, wedi'i gadeirio gan y Pennaeth Adnoddau Dynol a Datblygiad Sefydliadol, a oedd yn cynnwys un neu fwy o gynrychiolwyr o bob maes gwasanaeth yn gyfrifol ar y cyd am ddehongli gofynion y safonau, coladu a lledaenu data, ac am fonitro cydymffurfiad;
- Diweddarwyd Cynllun Gweithredu Safonau'r Gymraeg y Cyngor i gynnwys safonau mis Medi 2016, bob un â swyddog arweiniol penodedig i oruchwylio cydymffurfiad;
- Rhoddwyd cofrestr risg ar waith i fonitro cydymffurfiad;
- Adolygwyd rhestr o Hyrwyddwyr y Gymraeg trawsadrannol - swyddogion y cyngor yw'r rhain sy'n gyfrifol am helpu i gynyddu ymwybyddiaeth a hyrwyddo cydymffurfiad, a rhoi cyngor a chymorth i aelodau staff;

- Adolygwyd a diweddarwyd tudalennau mewnwyd y staff sy'n ymwneud â'r Gymraeg, a rhoddwyd diweddariadau a nodiadau atgoffa rheolaidd i aelodau staff;
- Defnyddiwyd cyfeiriad e-bost pwrpasol ar gyfer Safonau'r Gymraeg er mwyn i staff allu gofyn cwestiynau;
- Parhaodd y cyngor i ddarparu hyfforddiant 'Croesawu a Chyfarch' Cymraeg i aelodau staff rheng flaen.

Safonau darparu gwasanaethau

- Gweithio tuag at gyflwyno system Rheoli Cyswllt Cwsmeriaid yn Chwarter 1 i gasglu gwybodaeth am ddewis iaith y tu hwnt i'r hyn a gesglir eisoes gan Wasanaethau Cwsmeriaid;
- Rhoddir y dewis o gael contractau cyflogaeth yn y Gymraeg i unigolion;
- Mae staff yn parhau i gyfarch yn ddwyieithog dros y ffôn a, pan fo'n berthnasol, mae'r sgwrs yn parhau yn Gymraeg am weddill yr alwad. Neu, mae galwyr yn cael eu trosglwyddo i aelod o staff sy'n siarad Cymraeg (os oes un ar gael), neu i aelod o staff sy'n siarad Saesneg, os nad oes siaradwr Cymraeg ar gael, cyhyd a bod y cwsmer yn fodlon ar hynny;
- Yr un prif rif ffôn sydd gan y Cyngor (01656 643643) i'r rhai sy'n dymuno siarad â rhywun yn Gymraeg neu yn Saesneg. Os nad oes aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael ar adeg yr alwad, cynghorir galwyr, yn Gymraeg, pa bryd y bydd gwasanaeth o'r fath ar gael. Gall y rhai sy'n dymuno siarad â rhywun yn Gymraeg adael neges ffôn yn Gymraeg hefyd;
- Pan gaiff rhif ffôn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ei hysbysebu, mae'r Cyngor yn ceisio sicrhau ei fod yn datgan y croesewir galwadau yn Gymraeg ac yn Saesneg;
- Mae 'pecyn cyfarfodydd' wedi'i ddatblygu i alluogi'r cyngor i gofnodi dewis iaith mewn cyfarfodydd allanol - bydd y data hyn yn cael eu hadrodd yn yr Adroddiad Blynyddol nesaf;
- Pan fo'n briodol, bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn anfon gwahoddiadau dwyieithog i gyfarfodydd cyhoeddus ac i gyfarfodydd ariennir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (50% neu fwy o'r cyllid). Gofynnir i unrhyw un sy'n cyflwyno mewn cyfarfodydd a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg, ac, yn ogystal â hynny, rhoddir gwybod i'r rhai sy'n bresennol bod croeso iddynt ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod (os rhoddir gwybod i ni ymlaen llaw);
- Aseiad parhaus o'r galw am gyrsiau addysg Cymraeg sydd ar gael i'r cyhoedd;
- Mae deunyddiau marchnata, hysbysebu a chyhoedduswydd i'r cyhoedd (gan gynnwys datganiadau i'r wasg a datganiadau eraill) yn parhau i gael eu cyhoeddi yn ddwyieithog;
- Ymatebir yn Gymraeg i negeseuon Cymraeg ar y cyfryngau cymdeithasol;

- Pan fydd arwyddion newydd yn cael eu gosod yn lle arwyddion stryd, arwyddion lleoedd, ac arwyddion cyfeiriad sydd wedi dirywio gyda threigl amser neu wedi'u difrodi, byddant yn ddwyieithog, gyda'r testun Cymraeg uwchben y Saesneg;
- Caiff hysbysiadau swyddogol eu llunio yn ddwyieithog;
- Mae staff y derbynfeydd sy'n siarad Cymraeg a'r rhai sy'n dysgu Cymraeg yn gwisgo cordyn gwddf i ddweud hynny fel y bo'n briodol;
- Mae cyhoeddiadau sain yn ddwyieithog;
- Ceir gwneud ceisiadau am grantiau (a chwblhau'r broses) yn Gymraeg;
- Gellir cyflwyno/cynnal tendrau a chyfweliadau cysylltiedig yn Gymraeg.

Safonau llunio polisi

- Mae proses ddiwygiedig ar gyfer Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb ar waith i sicrhau y rhoddir ystyriaeth i'r Gymraeg wrth lunio neu ddatblygu polisiâu;
- Gofynnir i'r rhai sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau ymgynghori ac ymgysylltu pa un a allai penderfyniadau polisi effeithio ar y defnydd o'r Gymraeg, yn eu barn nhw;
- Rhoddir ystyriaeth i'r effeithiau y gallai dyfarnu grantiau eu cael ar y defnydd o'r Gymraeg.

Safonau Gweithredu

- Rydym wedi gofyn i bob cyflogai gadarnhau dewis iaith, a bydd hynny'n llywio'r ohebiaeth yn ymwneud â'u cyflogaeth, anghenion hyfforddi, dogfennau arfarnu a ffurflenni amrywiol yn gysylltiedig â chyflogaeth;
- Mae staff wedi cael meddalwedd er mwyn iddynt allu gwirio eu gramadeg a'u sillafu Cymraeg;
- Mae hafan, dewislenni ac adran Gymraeg mewnwyd staff Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn ddwyieithog;
- Mae system "hunanwasanaeth" newydd wedi ei chyflwyno i holl gyflogeion Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i ychwanegu at eu sgiliau Cymraeg neu eu diwygio;
- Defnyddir negeseuon "allan o'r swyddfa" dwyieithog fel trefn arferol ac anfonir nodyn atgoffa yn rheolaidd at y staff;
- Anogir siaradwyr Cymraeg a dysgwyr Cymraeg i nodi hynny ar eu llofnod e-bost (gan ddefnyddio'r logos cydnabyddedig perthnasol);
- Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi cyhoeddi Strategaeth Pum Mlynedd sy'n nodi sut yr ydym yn bwriadu hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg ledled y fwrdeistref sirol, ac mae ar gael [yma](#). Mae copïau papur hefyd ar gael yn ein Canolfan Cyswllt Cwsmeriaid;
- Mae pob hysbyseb am swydd wag yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn nodi bod y Gymraeg yn ddymunol, oni bai bod y broses sgrinio

rheolaeth swyddi gwag yn nodi bod y Gymraeg yn ofyniad hanfodol. Ceir rhagor o fanylion am hyn yn yr adroddiad hwn;

- Mae ymgeiswyr am swyddi yn parhau i allu gwneud y canlynol drwy gyfrwng y Gymraeg:
 - cael dogfennaeth
 - cyflwyno ceisiadau ar-lein
 - gweld y broses ddethol
- Mae arwyddion dwyieithog wedi'u gosod yn ein prif dderbynfa (y Swyddfeydd Dinesig), gyda'r Gymraeg yn gyntaf;
- Rydym wedi cyhoeddi fersiynau o'n prif bolisiau AD yn Gymraeg.

Safonau cadw cofnodion

- Monitro a chofnodi nifer y cyflogeion sy'n mynd ar gyrsiau hyfforddi drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg - gweler paragraff 4B a 4C isod.

3. Cwynion a ddaeth i law rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2017

Daeth saith cwyn i law o dan y safonau darparu gwasanaethau fel a ganlyn:

- Ymatebodd y gwasanaethau etholiadol i neges e-bost Gymraeg yn Saesneg. Daeth Comisiynydd y Gymraeg â'r gŵyn i ben ar y sail bod y gwasanaeth hwn yn dod o dan gylch gwaith y Swyddog Canlyniadau, ac nid y cyngor.
- Cwynodd mam nad oedd gweithiwr cymdeithasol wedi caniatáu iddi sgwrsio yn Gymraeg â'i mab mewn cyfarfod cyswllt dan oruchwyliaeth, oherwydd nad oedd yn deall Cymraeg a bod angen iddo ddeall yr hyn a oedd yn cael ei ddweud yn ystod y cyfarfod. Cyfeiriodd y fam ei chŵyn hefyd at Gomisiynydd y Gymraeg, a ddaeth â'r ymchwiliad i ben pan roddwyd rhagor o wybodaeth am swyddogaeth a chyfrifoldebau gweithwyr cymdeithasol.
- Cwynodd grŵp gweithredu i Gomisiynydd y Gymraeg nad yw'r cyngor yn cynnig pob gwrs nofio yn Gymraeg. Gohiriodd y Comisiynydd yr ymchwiliad er mwyn galluogi'r cyngor i gael barn gyfreithiol. Mae'r ymchwiliad yn mynd rhagddi erbyn hyn.
- Cafwyd cwyn mai amlenni dychwelyd Saesneg eu hiaith yn unig a ddefnyddiwyd gan y gwasanaethau Etholiadol. Nid yw'r cyngor wedi cael gohebiaeth ffurfiol gan y Comisiynydd ynghylch hyn hyd yma.
- Cafwyd cwyn gan aelod o'r cyhoedd ar ôl ffonio prif rif ffôn y cyngor a gorfod aros 10 munud am wasanaeth Cymraeg ond bod y gwasanaeth Saesneg ar gael ar unwaith. Anfonodd yr achwynydd gopi o'r gŵyn at Gomisiynydd y Gymraeg hefyd. Mae'r cyngor yn dal i aros am gŵyn ffurfiol gan y Comisiynydd.
- Cafwyd cwyn ynghylch y diffyg gwersi nofio Cymraeg ar gyfer disgyblion cyfrwng Cymraeg sy'n mynd i wersi nofio a ddarperir gan Halo ar ran y cyngor. Nid yw ysgolion yn cael dewis iaith ac mae'n rhaid iddynt gael gwersi drwy gyfrwng y Saesneg. Rhoddwyd gwybod i'r achwynydd bod ysgolion yn

cael rheoli gan gyrff llywodraethu ac y dylid cyfeirio'r gŵyn atynt hwy. Anfonodd yr achwynydd gopi o'r gŵyn at Gomisiynydd y Gymraeg. Mae'r cyngor yn aros am gŵyn ffurfiol gan y Comisiynydd.

- Roedd arwydd Cymraeg newydd mewn maes parcio yn dangos y gair 'ticketless' yn y Saesneg ond nid oedd wedi ei gyfieithu'n gywir i'r Gymraeg. Ni wnaeth Comisiynydd y Gymraeg ymchwilio i'r gŵyn hon oherwydd i'r arwydd gael ei gywiro cyn agoriad swyddogol y maes parcio.

Ni chafwyd unrhyw gwynion o dan y safonau llunio polisi.

4. Sgiliau a hyfforddiant cyflogeion

N Nifer y cyflogeion â sgiliau Cymraeg ar 31 Mawrth 2017:

Disgrifiad	Ysgolion				Pob Gwasanaeth Arall			
	Benyw	Gwryw	Cyfanswm	%	Benyw	Gwryw	Cyfanswm	%
Cyfanswm y bobl	2,650	534	3,184		2,438	708	3,146	
Siarad Cymraeg								
'Ychydig'	298	46	344	10.80%	305	95	400	12.71%
'Eithaf Da'	53	16	69	2.17%	38	10	48	1.53%
'Rhugl'	138	20	158	4.96%	80	17	97	3.08%
'Dim'	268	51	319	10.02%	1,013	298	1,311	41.67%
Dim Ymateb	1,893	401	2,294	72.05%	1,002	288	1,290	41.00%
Darllen Cymraeg								
'Ychydig'	288	43	331	10.40%	318	102	420	13.35%
'Eithaf Da'	56	17	73	2.29%	50	18	68	2.16%
'Rhugl'	139	21	160	5.03%	78	15	93	2.96%
'Dim'	274	52	326	10.24%	989	285	1,274	40.50%
Dim Ymateb	1,893	401	2,294	72.05%	1,003	288	1,291	41.04%
Ysgrifennu Cymraeg								
'Ychydig'	259	37	296	9.30%	233	71	304	9.66%
'Eithaf Da'	54	16	70	2.20%	43	11	54	1.72%
'Rhugl'	132	20	152	4.77%	70	12	82	2.61%
'Dim'	311	60	371	11.65%	1,089	325	1,414	44.95%
Dim Ymateb	1,894	401	2,295	72.08%	1,003	289	1,292	41.07%

Noder:

- Mae'r categori 'Ysgolion' yn cynnwys cyflogeion sydd yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan gyrff llywodraethu. Mae staff cynhwysiant wedi'u cynnwys yn y categori Pob Gwasanaeth Arall;
- Mae'r categori 'Dim Ymateb' yn cynnwys cyflogeion nad ydynt wedi rhoi manylion am eu sgiliau Cymraeg;

- Mae'r lefelau sgiliau a nodir wedi'u seilio ar hunanasesiad unigol;
- Mae 265 o gyflogeion yn gweithio mewn ysgol mewn swydd sy'n dod o dan 'Pob Gwasanaeth Arall' ac maent wedi'u cyfrif unwaith ym mhob categori.

Nifer y cyflogeion a fynychodd gyrsiau hyfforddiant Cymraeg rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2017:

- Darparwyd hyfforddiant 'Croesawu a Chyfarch' Cymraeg i 234 o bobl (17 sesiwn hanner diwrnod yn ystod 2016/17);
- Aeth 44 o'r cyflogeion a gwblhaodd yr hyfforddiant uchod ymlaen i hyfforddiant Cwrs Mynediad, er mwyn datblygu eu sgiliau iaith ymhellach. Roedd hyn yn cynnwys 4 dosbarth, 2 awr yr wythnos am 30 wythnos;
- Aeth 21 o gyflogeion ar hyfforddiant 'Croesawu a Chyfarch' a hyfforddiant Cwrs Mynediad.

Pan gynhaliwyd fersiynau Cymraeg o gyrsiau rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2017, canran yr aelodau staff a fynychodd y cwrs Cymraeg:

- Cafwyd chwe chais am ddeunyddiau hyfforddi wyneb yn wyneb i fod ar gael yn Gymraeg gan staff ysgol, sef 0.19% o'r rhai a fynychodd yr hyfforddiant, a chwblhawyd dau fodiwl e-ddysgu yn Gymraeg yn ystod 2016/17.

5. Recriwtio a dethol

Nifer y swyddi newydd a swyddi gwag a hysbysebwyd yn ystod 2016/17 a nododd bod sgiliau Cymraeg yn:

- Hanfodol = 30
- Dymunol = 446

6. Gwasanaethau derbynfeydd: canolfannau cyswllt a chanolfannau cyswllt ffôn

Y galw am wasanaethau Cymraeg yn y Ganolfan Cyswllt Cwsmeriaid rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2017:

Rhyngweithiadau wyneb yn wyneb yn Gymraeg	13
Cyfanswm yr ymweliadau	28,818
Ceisiadau Cymraeg fel % o gyfanswm y rhyngweithiadau	0.04%

Y galw am wasanaethau Cymraeg yn y Ganolfan Cyswllt Ffôn rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2017 (mae cwsmeriaid dros y ffôn sy'n gofyn am wasanaeth Cymraeg yn gwneud hynny drwy ddewis opsiwn 7 ar y neges ddwyieithog agoriadol):

Nifer y galwadau yn ystod oriau gwaith arferol (Cymraeg a Saesneg)	253,917
Nifer y galwadau a gafwyd y tu allan i oriau swyddfa (Cymraeg a Saesneg)	455
Cyfanswm y galwadau a dderbyniwyd (Cymraeg a Saesneg)	254,372
Cyfanswm y galwadau Cymraeg	457
Ceisiadau Cymraeg fel % o gyfanswm y galwadau	0.18%

7. Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2017

Cyflawnwyd 9 Asesiad llawn o'r Effaith ar Gydraddoldeb, ac ystyried effaith y polisi/strategaeth ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg mewn modd cadarnhaol neu negyddol a thrin y ddwy iaith yn gydradd. Ni nodwyd unrhyw effaith, felly ni wnaed unrhyw newidiadau i'r polisïau/strategaethau arfaethedig a aseswyd.

8. Hybu a chodi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a diwylliant Cymru

Cynhaliodd y cyngor weithgareddau hyrwyddo rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2017 ar gyfer y digwyddiadau/ gweithgareddau canlynol:

- Eisteddfod yr Urdd – gorymdaith gyhoeddi a oedd yn cynnwys 3,000 o blant ac oedolion yn cynrychioli ysgolion, colegau a chlybiau lleol;
- Ymgynghoriad ar allu cael gafael ar addysg cyfrwng Cymraeg;
- Diwrnod Shwmae su'mae;
- Cyrsiau Cymraeg rhad ac am ddim;
- Cystadleuaeth rygbi 7 bob ochr Undeb Rygbi Cymru i ysgolion – cymerodd 3,000 o chwaraewyr a 50 o ddyfarnwyr ran yn y digwyddiad mwyaf o'i fath yng Nghymru (ym Mhencoed);
- Dydd Miwsig Cymru ym Mhafiliwn y Grand, Porthcawl;
- Dydd Gŵyl Dewi – gweithgareddau mewn ysgolion.